

Cyngor Cymuned Llanelian (253)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Ebrill 1af 2014 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:	Dafydd Griffiths Thomas D Jones John Griffiths	Gordon Hayes T Elfyn Hughes David Gerrard (hwyr)	Carol Whitaker David Herbert
------------	--	--	---------------------------------

Ymddiheuriadau:	Hefina Williams Cyng. Richard Jones	Helen Hughes	Glenys Jones
-----------------	--	--------------	--------------

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod ac estynnwyd croeso arbennig i John Griffiths i'w gyfarfod cyntaf fel aelod o'r Cyngor Cymuned.

1 Datgan Diddordeb

Materion Partneriaeth Llwyfo (Cae Chwarae) – Dafydd Griffiths, T Elfyn Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker

2 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig Gordon Hayes, Eilio Thomas D Jones.

3 Materion yn Codi

3.1 Gorsaf Bŵer Trawsfynydd - cafwyd e-bost arall gan Un Llais Cymru yn ymwneud a'r mater a phenderfynwyd nodi ei gynnwys a pheidio gwneud sylw pellach ar y mater gan nad oedd digon o wybodaeth i law.

3.2 Trefniadau parcio - darllenwyd y llythyr a gafodd ei anfon at Mr Huw Percy yn dilyn y cyfarfod diwethaf, a darllenwyd hefyd ei ymateb a dderbyniwyd 31/3/2014. Trafodwyd ei gynnwys mewn manylder a daethpwyd i gytundeb mai cysylltu a'r Cyngorwyr Sirol yn gofyn iddynt ddelio a'r mater fuasai'r cam nesaf. Buasai llythyr at y cyngorwyr yn rhoi cefndir i'r broblem ac yn amlinellu pam nad yw'r Cyngor Cymuned yn hapus ac ymateb Mr Huw Percy; yn benodol -

- Nid yw'r wybodaeth a ofynnwyd amdano wedi ei gynnwys yn yr ymateb
- Oes rheswm cyfreithiol am y newidiadau arfaethedig?
- Teimlo bod y mater wedi ei fychanu – dim gwahaniaethau rhwng trigolion yw'r mater hwn,
- Nid yw'r Adran wedi gwrandao ar y Cyngor Cymuned ers blynyddoedd ac mae'r mater yn rhygnu ymlaen (ers 2008)
- Pam gynigwyd yr opsiwn o waharddiadau yn y gulfan os yw'r swyddogion yn gwrthwynebu hyn?
- Mae Mr Percy yn son am yr Ombwdsmon yn ei e-byst - pwy/beth sy'n cael ei archwilio? Os yw'r mater yn ymwneud a'r Cyngor Cymuned, oes mwy o wybodaeth ar gael?

Cynigwyd gan TD Jones, eiliwyd gan Elfyn Hughes. Cafwyd pleidlais; roedd 6 aelod o blaid, ac un yn ymatal ei bleidlais.

4 Materion Ariannol

4.1 Cyfrifon - roedd copi o'r cyfrifon ar gael i'r sawl oedd am eu gweld. Roedd y taliadau am y flwyddyn ariannol 2013/14 wedi eu gwneud, ond bydd rhaid disgwyl am fantolen banc cyn gallu paratoi'r cyfrifon ar gyfer archwiliad. Ni does dyddiad wedi ei bennu ar gyfer archwiliad eto.

5 Cynllunio (ni fydd y Cyngorwyr Sirol yn cymryd rhan yn y drafodaeth)

5.1 Roedd dau gais i'w drafod –

- Awelfryn - newid mynedfa - nid oedd gwrthwynebiad
- Gwelfryn – newid defnydd er mwyn gofalu am blant – tynnu sylw at broblemau traffig posib.

5.2 Penderfyniadau -

Cafwyd wybod gan y Cyngor Sir bod y ceisiadau yma wedi eu caniatáu -

- The Barn, Llanelian
- Sŵn y Môr, Llanelian
- Cae Lon, Penysarn

Ni fydd angen caniatâd i greu trac amaethyddol yn Rhosmynach Isaf, Dulas

6 Cae Chwarae

6.1 Mae'r clerch wedi bod mewn cysylltiad â nifer o gwmnïau yn ymwneud a gosod rwber o dan yr offer

chwarae. Wedi cwrdd â Playquest ar y safle, cafwyd pris o £6170.00+TAW am y gwaith. Gofynnwyd i'r Clerc weithio ar geisiadau am arian grant, gan gytuno y byddai'r Cyngor yn rhoi arian tuag at y prosiect petai rhaid. Bydd archwiliad ar y cae chwarae yn cymryd lle ym mis Mehefin.

- 6.2 Partneriaeth Llwyfo - fe ofynnwyd a fyddai posib i'r Cyngor dalu am gostau archwilio'r cae chwarae arall yn y pentref, ac a fuasai posib iddo gael ei archwilio'r un pryd ag un y Cyngor. Cafwyd trafodaeth a fuasai'r Cyngor yn cymryd y cyfrifoldeb o'r cae gan Bartneriaeth Llwyfo; ased cymunedol ydi'r cae, a deallwyd fod y gwaith yn ymwneud a'r grantiau cafodd eu sicrhau ar gyfer y cae chwarae wedi ei gwblhau. Penderfynwyd y byddai Partneriaeth Llwyfo yn paratoi adroddiad manwl i'w gyflwyno i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf cyn dod i gytundeb gan fod nifer yn datgan diddordeb, a nifer yn absennol o'r cyfarfod hwn. DG
EH
GH
CW
- 7 Unrhyw Fater Arall**
- 7.1 Mrs Mair Morris - mae Mrs Morris wedi anfon rhodd o £650 tuag at giât newydd i'r Fynwent yn Llanelian. Roedd pryder efallai bod y giât wedi cynnwys yn rhan o'r cofnod adeilad rhestredig (listed building) ar gyfer yr Eglwys. Bydd angen cadarnhau hyn, a gofyn i Mrs Morris a fuasai yn fodlon i'r arian gael ei wario ar welliannau i'r giât bresennol os bydd rhaid. Cytunwyd trafod y mater eto yn y cyfarfod nesaf, a chael golwg mwy manwl ar y cynlluniau i welliannau yn y fynwent sydd wedi eu paratoi gan Mr Gwyn Roberts. CET
- 7.2 Strategaeth Cyfraniadau Budd-daliadau Cymunedol - Mae'r Cyngor Sir wedi datblygu'r strategaeth er mwyn cael arian gan gwmnïau sy'n datblygu ar yr Ynys, ac mae sesiwn briffio i'w gynnal nos Iau Ebrill 10 yn Siambr y Cyngor yn Llangefni. Bydd y Cadeirydd a'r Clerc yn mynychu. DG
CET
- 7.3 Fforwm Cyswllt Cyngorau Cymuned a Chyngorau Tref – bydd cyfarfod i'w gynnal yn Llangefni 12/6/2014. Bydd y Cadeirydd yn mynychu. DG
- 7.4 Gwefan - mae'n debyg y bydd gwefan yn ofynnol yn y dyfodol agos. Mae grant o hyd at £500 yn dal i fod ar gael gan y llywodraeth i gynghorau cymuned, ond mae rhaid ei hawlio cyn diwedd Ebrill. Cynigwyd bod y clerch yn cysylltu â thri chwmni lleol am amcan bris, a bod y Cyngor yn derbyn y pris gorau. Cynigwyd gan T Elfyn Hughes, ac roedd yr aelodau arall yn gytûn. CET
- 7.5 Cafwyd wybod gan Celtic Array eu bod yn cynnal dyddiau gwybodaeth / ymgynghori mewn gwahanol leoliadau dros yr wythnosau nesaf.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf –

13/5/2014, 10/6/2014, 8/7/2014, 5/8/2014, 2/9/2014, 14/10/2014

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.15 o'r gloch.

CET04/2014